**Barry Davies LL.B (Hons)**
**Solicitor/Cyfreithiwr**
*Head of Legal and Democratic Services*
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

To: Cynghorwyr: Nancy Matthews, Patrick Heesom, Graham Rees, Michael Priestly, Eryl Williams, Julian Thompson-Hill, Arwell Pierce, W. G. Roberts, R. G. Parry and Thomas H. Jones

CS/NG

25 Mehefin 2009

Nicola Gittins

01352 702336

nicola.gittins@flintshire.gov.uk

Annwyl Syr / Fadam

Cynhelir cyfarfod **PARTNERIAETH TRIN GWASTRAFF GOGLEDD CYMRU** yn **VENUE CYMRU, CONWY** ar **DYDD GWENER, 3 GORFFENAF 2009** am **2.00pm** i drafod y materion canlynol.

Yr eiddoch yn gywir

Cyfarwyddwr Cynorthwyol (Gwasanaethau Democrataidd)

## A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU**

2. **CYMERADWYO'R COFNODION BLAENOROL (11 MAWRTH 2009)**

3. **MATERION YN CODI O'R CYFARFOD BLAENOROL**

4. **STRATEGAETH GYFATHREBU (CE)**

5. **PENODIADAU I'R TIM PROSIECT (CE)**

6. **CAFFAEL YR YMGYNGHORIAETH – ADRODDIAD AR Y CYNNYDD**

   **(a) TECHNEGOL & ARIANNOL (ADRODDIAD SP)**
   **(b) CYNGHORWYR CYFFREITHIOL (ADRODDIAD BD)**

7. **ACHOS BUSNES AMLINELL (ADRODDIAD ER)**

8. **ADOLYGIAD O AMSERLEN Y PROSIECT (ADRODDIAD ER) (COPI I DDILYN)**

9. **RIR – DIWEDDARIAD AR Y STATWS RISG – (SP I ADOLYGU'R DDOGFEN AC I ADRODD)**

10. **Y DIWEDDARAF AM Y CYNNYDD – LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU – TUAG AT DDYFODOL DIWASTRAFF – YMGYNGHORIAD AR STRATEGAETH WASTRAFF NEWYDD I GYMRU – (TRAFODAETH A SYLWI ARNO FEL PAPUR I GYNYDDU YMWYBYDDIAETH)**

11. **Y DIWEDDARIAD AM GYLLID (ADRODDIAD KF)**

12. **LCC – ASTUDIAETH RHEOLI GWASTRAFF (CE)**

13. **DYDDIADAU CYFARFODYDD I'R DYFODOL (AMSERLEN)**

14. **UNRHYW FATER ARALL**

# CYD-BWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mawrth, 2009

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Eryl Williams (Cadeirydd) - Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Graham Rees (Is-Gadeirydd) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cynghorydd G.O. Parry MBE - Cyngor Sir Ynys Môn
Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill – Cyngor Sir Ddinbych
Y Cynghorydd Patrick Heeson – Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorydd Nancy Matthews – Cyngor Sir y Fflint
Y Cynghorydd Arwel Pierce – Cyngor Gwynedd
Y Cynghorydd Mike Priestley – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**WRTH LAW:** **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Mr. Andrew Kirkham
Ms. Enid Roberts

**Cyngor Sir Ddinbych**
Mr. Iwan Prys Jones

**Cyngor Sir y Fflint**
Mr. Barry Davies
Mr. Colin Everett
Ms. Kerry Feather
Mr. Carl Longland
Ms. Louise Pedreschi
Mr. Nigel Truman

**Cyngor Gwynedd**
Mr. Peter Evans

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Mr. Arthur Owen
Mr. Robert Burnell
Mr. Meirion Edwards
Mr. Terry Jones

**LICC / PUK**
Ms. Hazel Nickless

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Gareth Roberts – Cyngor Gwynedd
Y Cynghorydd Bob Parry OBE - Cyngor Sir Ynys Môn

**1(a) YMDDIHEURIADAU**
Ymddiheuriadau fel y cânt eu nodi uchod.

**1(b) DATGANIAD O DDIDDORDEB**
Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb gan unrhyw aelod neu swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

**2. CYMERADWYO COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Modlondeb, Conwy ar 10 Rhagfyr 2008 fel rhai cywir.

## 3. RECRIWTIO TÎM PROSIECT A THREFNIADAU INTERIM AR GYFER CEFNOGI'R PROSIECT

Dywedodd Mr. Colin Everett y cafwyd problemau mewn perthynas â recriwtio Cyfarwyddwr Prosiect. Nododd bod dau ymgeisydd wedi cael eu rhoi ar restr fer ar gyfer y swydd ond bod un ymgeisydd wedi tynnu ei gais yn ôl cyn y cyfweliad.

Dywedwyd y buwyd mewn cysylltiad gyda nifer o asiantaethau cyflogaeth sydd â phobl addas o bosibl gyda phrofiad yn y maes pwrcasu gwastraff. Bydd rhestr fer o ymgeiswyr posibl ar gyfer swydd Cyfarwyddwr y Prosiect yn cael ei thynnu o'r ffynonellau hyn. Nodwyd nad yw swydd y Rheolwr Prosiect wedi ei hysbysebu hyd yma a rhagwelwyd y byddai'r swydd ar lefel Swyddog 3ydd / 4ydd reng. Bwriedir hysbysebu'r swydd fel cyfle secondiad ar draws y 5 awdurdod lleol.

Gofynnodd Mr. Everett i bob awdurdod lleol enwebu aelod etholedig i wasanaethu ar y Panel Penodi.

**CYTUNWYD penodi'r aelodau canlynol i wasanaethu ar y Panel Penodi :-**

**Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor hwn.**
**Y Cynghorydd Bob Parry OBE – Cyngor Sir Ynys Môn**
**Y Cynghorydd Arwel Pierce – Cyngor Gwynedd**
**Y Cynghorydd Mike Priestley – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Caniateir dirprwyon os bydd aelod o'r Panel yn methu â mynychu'r Panel Penodi.

## 4. ADRODDIAD AR GYNNYDD

Cyflwynwyd – adroddiad gan Nigel Truman, Cyngor Sir y Fflint ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â Phartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.

Crynodeb y prosiect oedd pwrcasu modd cynaliadwy o reoli gwastraff ar gyfer y pum awdurdod yng Ngogledd Cymru a fydd yn cynorthwyo i leihau gollyngiadau nwyon tŷ gwydr o safleoedd claddu gwastraff. Bydd hyn hefyd yn lleihau'r nifer o dunelli o wastraff gweddilliol a anfonir i safleoedd tirlenwi gwastraff gan sicrhau felly bod awdurdodau yn osgoi cael dirwyon dan y Cynllun Lwfans Safleoedd Tirlenwi.

Cynnydd hyd yma :

- Y Cyd-bwyllgor bellach wedi ei sefydlu'n llawn
- Y ddogfen cychwyn prosiect wedi cael ei chymeradwyo gan Swyddfa Bwrcasu Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Y swyddogion wedi cychwyn gweithio ar achos busnes amlinellol
- Brîff drafft ar gyfer yr ymgynghorwyr allanol wedi ei baratoi gan Partnerships UK (PUK)

**CYTUNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 5. MEMORANDWM O DDEALLTWRIAETH - CEFNOGAETH FASNACHOL

Nododd Mr. Nigel Truman, Cyngor Sir y Fflint bod y memorandwm o ddealltwriaeth ar gyfer cefnogaeth fasnachol gan PUK wedi cael ei lofnodi gan yr awdurdod sy'n arwain (Cyngor Sir y Fflint) ar ran y Bartneriaeth ym mis Ionawr 2009.

Nodwyd bod Ms. Hazel Nickless wedi cael ei phenodi i roi cefnogaeth fasnachol i Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru. Rhoddodd Ms Nickless gefndir i'w gwaith a rhoes wahoddiad i unrhyw aelod o'r Pwyllgor hwn gysylltu gyda hi gydag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth Trin Gwastraff.

**CYTUNWYD i nodi'r adroddiad.**

6. **DOGFEN CYCHWYN PROSIECT – ATBORTH GAN LICC**

Nododd Mr. Nigel Truman, Cyngor Sir y Fflint bod y Ddogfen Cychwyn Prosiect wedi cael ei chymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn Ionawr 2009.

**CYTUNWYD i nodi'r adroddiad.**

7. **ACHOS BUSNES AMLINELLOL**

Cadarnhaodd Mr. Nigel Truman, Cyngor Sir y Fflint bod swyddogion Cyngor Sir y Fflint wedi cychwyn gwaith paratoi ar yr Achos Busnes Amlinellol.

**CYTUNWYD i nodi'r adroddiad.**

8. **RECRIWTIO YMGYNGHORWYR ALLANOL**
9. **CYTUNDEB RHWNG YR AWDURDODAU**

(Trafodwyd eitemau 8 a 9 gyda'i gilydd fel un eitem).

Nododd Mr. Barry Davies, Cyngor Sir y Fflint, mai pwrpas yr adroddiad oedd ystyried penodi ymgynghorwyr cyfreithiol ar wahân i unrhyw ymgynghorwyr arbenigol eraill ar gyfer y prosiect pwrcasu.

Yn y cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Cysgodol ym Modlondeb ar 10 Rhagfyr 2008, ystyriwyd yr amryfal opsiynau ar gyfer penodi ymgynghorwyr i gynghori ar y prosiect gwastraff gweddilliol. Barn gyffredinol oedd y dylid pwrcasu gwasanaeth yr holl ymgynghorwyr ar y cyd fel consortiwm gydag atebolrwydd ar y cyd ac ar wahân. Mae'r cyfreithwyr sy'n cynrychioli pob un o'r pum awdurdod ar y Cyd-bwyllgor wedi cyfarfod ar ôl hynny i ystyried sut orau i ddatblygu cytundeb rhwng yr awdurdodau a fydd yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol yn dilyn derbyn yr achos busnes amlinellol. Consensws y cyfarfod, a gynghorwyd gan Ms Hazel Nickless o Partnerships UK, oedd y byddai'n well i'r cytundeb rhwng yr awdurdodau gael ei ddatblygu gan gwmni o gyfreithwyr allanol gydag arbenigedd mewn contractau trin gwastraff gweddilliol mawr.

Er mwyn sicrhau cysondeb a pharhad, cynghorwyd hefyd y dylai'r un cyfreithwyr sy'n cynghori ar ddatblygu cytundeb rhwng yr awdurdodau weithredu fel y prif ymgynghorwyr cyfreithiol ar gyfer yr ymarfer pwrcasu.

Gofynnwyd am wybodaeth ynghylch penodi ymgynghorwyr cyfreithiol ar gyfer gwaith prosiect yn ymwneud â'r pum awdurdod lleol yn Ne Cymru. Maen' nhw yn ddiweddar wedi ymgymryd ag ymarfer pwrcasu am gyngor cyfreithiol allanol drwy drywydd 'Catalist' yr OGC. Mae eu hymgynghorwyr allanol nhw bellach yn y broses o baratoi dau gytundeb rhwng awdurdodau. Bydd y cytundeb cyntaf yn effeithiol o ddyddiad cyhoeddi rhybudd yn yr OJEU ar gyfer y prosiect a bydd yn parhau hyd oni fydd y contractwr llwyddiannus wedi cael ei benodi. Bydd yr ail gytundeb yn ymwneud â chyfnod y contract gyda'r tendrwr llwyddiannus. Fodd bynnag, cydnabuwyd efallai na fyddai contractwr yn cael ei benodi yn dilyn yr ymarfer pwrcasu.

Petai'r Cyd-bwyllgor yn cytuno, gellid ymgymryd ag ymarfer pwrcasu trwy drywydd 'Catalist' yr OGC gan wahodd tendrau gan y cwmnïau hynny ar y rhestr a fedr ddangos bod ganddynt brofiad sylweddol mewn pwrcasu yn y maes cyfraith gyhoeddus, y broses ddeialog cystadleuol a chontractau rheoli gwastraff gweddilliol mawr. Gellid gofyn i gwmnïau gyflwyno prisiau am gyngor yn ystod y broses gyfan ond gellid penodi fesul cam fel bod cyfle i ddwyn gwasanaeth i ben mewn rhai amgylchiadau e.e. petai'r Cyd-bwyllgor yn anhapus gyda'r cyngor a gafwyd fel rhan o'r achos busnes amlinellol.

Cyfeiriodd Mr. Coin Everett at yr angen am gapasiti ychwanegol i bwrcasu ymgynghorwyr allanol a gwahoddodd pob awdurdod lleol i gadarnhau a fyddant yn gallu cynorthwyo gyda'r broses ai pheidio.

Cadarnhaodd Mr. Arthur Owen y gallai Cyngor Sir Ynys Môn gynorthwyo i bwrcasu ymgynghorwyr technegol.

**CYTUNWYD :-**

- **Penodi ymgynghorwyr drwy drywydd 'Catalist' yr OGC i ddatblygu cytundeb rhwng yr awdurdodau ac i gynghori trwy gydol y broses pwrcasu.**

- **Rhoddi awdurdod dirprwyol i'r Bwrdd Prosiect wneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer y broses recriwtio gan gynnwys penodi ymgynghorwyr cyfreithiol.**

- **Bod y costau a gyfyd o'r penodiad yn cael eu talu o'r arian a neilltuwyd ar gyfer ymgynghorwyr allanol.**

- **Bod y Cyd-bwyllgor yn dangos ei fod yn fodlon cyfuno'r broses o bwrcasu ymgynghorwyr cyfreithiol ar gyfer y Prosiect Gwastraff Gweddilliol gyda'r broses bwrcasu ar gyfer ymgynghorwyr cyfreithiol mewn perthynas â'r Prosiect Gwastraff Bwyd.**

- **Gofyn i'r grŵp o gyfreithwyr a sefydlwyd i symud ymlaen i benodi ymgynghorwyr cyfreithiol ddatblygu'r templedi tendro a gyflwynwyd gan Hazel Nickless a phennu'r meini prawf ar gyfer gwerthuso.**

- **Bod y Cyd-bwyllgor yn cydnabod bod angen capasiti mewnol mewn perthynas â chyngor cyfreithiol a chytuno i gynnig Cyngor Sir y Fflint i ryddhau cyfreithiwr mewnol am ddeuddydd yr wythnos a bod costau hynny'n cael eu rhannu rhwng y pum awdurdod a'i dalu allan o'r grantiau sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.**

- **Cydnabuwyd hefyd bod angen capasiti mewnol ar gyfer penodi ymgynghorwyr ariannol a thechnegol ar y prosiect a chytunwyd y byddai angen pwrcasu'r rhain yn unol â phenderfyniad blaenorol y Cyd-bwyllgor Cysgodol. Cytunwyd y byddai Cyngor Sir Ynys Môn yn darparu capasiti ar gyfer y gwaith pwrcasu technegol ac y byddai trafodaethau pellach rhwng yr awdurdodau yn penderfynu pa awdurdod fyddai'n darparu capasiti mewnol mewn perthynas â phwrcasu gwasanaeth ymgynghorwyr ariannol. Byddai'r costau yn cael eu rhannu rhwng y pum awdurdod a'i ddyrannu o'r grant sydd ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ymgynghorwyr.**

- **Y Bwrdd Prosiect fydd yn penodi'r ymgynghorwyr.**

**10. DIWEDDARIAD ARIANNOL**

Cyflwynwyd a nodwyd yr adroddiad diweddaraf gan Mr. Nigel Truman mewn perthynas â'r manylion ariannol sy'n ymwneud â'r Cyd-bwyllgor hyd yma.

**11. DIWEDDARIAD CENEDLAETHOL – TARGEDAU AILGYLCHU DIWYGIEDIG A CHYMORTH ARIANNOL (FUTURE DIRECTIONS)**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Mr. Nigel Truman ar y papur diwygiedig Future Directions 2 ac yn rhoi cyd-destun mewn perthynas â'r effaith ar Bartneriaeth Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.

Dywedodd Mr. Truman bod Cynulliad Cymru ar 18 Hydref 2007 wedi rhyddhau'r ddogfen Future Directions ar gyfer ymgynghori yn ei chylch gyda Llywodraeth Leol a chenedlaethol. Roedd y papur yn cynnwys targedau a oedd yn amlinellu'r targedau sy'n cael eu ffafrio ar gyfer rheoli gwastraff dinesig.

Mae'r broses ymgynghori gychwynnol bellach wedi dod i ben ac wedi arwain at nifer o newidiadau i'r targedau a argymhellwyd eisoes ar gyfer gwastraff dinesig. Ar 20 Ionawr, 2009 cyhoeddwyd y ddogfen ddiwygiedig Future Directions 2 i sefydliadau llywodraeth leol a chenedlaethol i ymgynghori ymhellach arni cyn ymgynghori'n llawn gyda'r cyhoedd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Dyma'r targedau :-

| Targedau ar gyfer pob Awdurdod Lleol | Y Targedau ar gyfer bob blwyddyn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2009/10** | **2012/13** | **2015/16** | **2019/20** | **2024/25** |
| Ailgylchu Sych | 25% | 52% | 58% | 64% | 70% |
| Compostio | 15% | | | | |
| Gwastraff Bwyd a Chegin (% lleiaf fel rhan o'r targed uchod) | - - | (15%) 12% | (15%) 14% | (15%) 16% | (15%) 18% |
| Ynni o Wastraff (% uchaf) Net (Gros) | - | - | 42% | 36% | 30% |
| Uchafswm y gwastraff gweddilliol gan bob preswylydd bob blwyddyn | - | (-) 295kg | (-) 258kg | (-) 210kg | 150kg |
| Lefel uchaf i safle tirlenwi | - | - | - | 10% | 5% |
| (Targed effeithlonrwydd lleiaf o rhwng 60-65% ar gyfer cyfleusterau Ynni o Wastraff. | | | | | |
| (Y posibilrwydd o waharddiad ar wastraff dinesig sy'n cael ei daenu ar dir ac sydd heb ei wahanu/ ei drin o'r man lle mae'n tarddu o 1 Ebrill 2016). | | | | | |

Dylid nodi nad yw'r targedau ar gyfer ailgylchu sych a chompostio am y flwyddyn darged 2012/13 yn dangos cynnydd o gymharu â'r targed cyfredol ar gyfer 2009/10.

Mae'r targed effeithlonrwydd isaf ar gyfer cyfleusterau o fath ynni o wastraff yn golygu comisiynu cyfleusterau Pŵer Gwres Cyfun er mwyn sicrhau y defnyddir y gwres a gynhyrchir. Rhaid lleoli cyfleusterau o'r fath o fewn radiws o ddwy filltir o ddefnyddwyr diwydiant pwysau uchel a 7 milltir o anheddau domestig. Rhydd hyn gyfyngiad pellach ar addasrwydd safleoedd.

Y prif newidiadau yw :-

- Gostyngiad yn y canran o wastraff bwyd a chegin a gasglwyd o 15% i 12% (2012/13) a 15% i 14% (2015/16). Mae targedau casglu wedi cynyddu i 16% (2019/20) ac 18% (2024/25).

- O 1af Ebrill 2012 ymlaen, cynigir y dylai gwastraff o losgwyr/lludw Ynni o Wastraff a gwastraff o lanhau traethau gael ei ychwanegu fel deunydd ailgylchu a bydd hynny felly yn cael effaith gadarnhaol ar allu awdurdodau i gyrraedd targedau ailgylchu.

- Mae'r targed Ynni o Wastraff wedi cael ei altro ar dri chyfrif :-

    - Rhannu ymysg y bartneriaeth y ganran o wastraff a ganiateir ei anfon i'w drin mewn cyfleusterau ynni o wastraff.

    - Lleihau targedau, a

    - Cynnwys lludw fel deunydd ailgylchu sy'n golygu y gellir codi'r ganran o wastraff sy'n cael ei yrru i'w drin gan felly leihau perfformiad o ailgylchu o ochr y ffordd gan yr un ganran.

- Mae'r targed lleihau gwastraff (yr uchafswm o wastraff gweddilliol a ganiateir i bob preswylydd) wedi cael ei ymestyn i gynnwys targedau ar gyfer 2012/13, 2015/16 a 2019/20. Mae'r targed o 295kg fesul preswylydd y flwyddyn yn cynrychioli lleihad o dros 45% yn seiliedig ar ystadegau poblogaeth 2006/07.

- Mae LlCC wedi nodi cyllid refeniw ychwanegol o 2014/15 ymlaen sy'n benodol i'r cyfraniad tuag at dalu ffioedd i fynd i mewn i gyfleusterau o fath ynni o wastraff.

Dywedodd LlCC wrth awdurdodau bod ystyriaeth yn cael ei rhoddi i ailbroffilio lwfansau LAS y cyfan o'r 22 awdurdod o 2010/11 ymlaen. Roedd y targedau LAS diwygiedig o fudd yn gyffredinol i Bartneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru er bod y targedau hyn yn lleol a'u bod wedi cael effaith andwyol ar Gonwy.

Yn adroddiad 'Eumonia' a oedd yn sylfaen i'r papur gwreiddiol 'Future Directions', nodwyd na fyddai modd cyrraedd y targedau arfaethedig heb nifer o bwerau economaidd a deddfwriaethol yn eu lle. Roedd y rhain yn cynnwys ffioedd 'Talu wrth Daflu ' statudol neu ffioedd Uniongyrchol ac Amrywiol, cyfrifoldeb o du'r cynhyrchwyr a ffioedd safleoedd claddu gwastraff yn unol â ffioedd ardal 'Flanders' yn Ewrop (oddeutu £130 fesul tunnell). Nid yw'r pwerau deddfwriaethol hyn wedi eu sicrhau hyd yma ac ni fydd y cynnydd yn y dreth safleoedd tirlenwi yn cael ei hadolygu tan 2011. Oni fydd modd cyflwyno'r ddeddfwriaeth ategol hon, bydd angen ymgynghori ymhellach ar y targedau ailgylchu a gallai hynny achosi oedi gyda'r rhaglen bwrcasu wrth i waith modelu pellach gael ei wneud.

Dywedodd Ms. Hazel Nickless mai'r newid mwyaf arwyddocaol oedd y lleihad yn y targed gwastraff bwyd o 18% i 15%. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar gael cymeradwyaeth derfynol Ms. Jane Davidson AC, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Tai.

**CYTUNWYD :-**

- **Cymeradwyo comisiynu dadansoddiadau o gyfansoddiad gwastraff lleol fel sylfaen i dargedau polisi LlCC.**

- **Parhau i mofyn eglurhad ar y targedau 'Future Direction' yn benodol mewn perthynas â chasglu gwastraff bwyd a sefydlu baslinellau newydd ar gyfer targedau LAS lleol.**

- **Parhau gyda'r dialog gwleidyddol gyda Chynulliad Cymru mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig gyda chyflwyno ffioedd 'Talu wrth Daflu' statudol, cyfrifoldeb cynhyrchwyr a'r cynnydd yn y dreth ar gyfer safleoedd tirlenwi ac effaith ar y targedau cenedlaethol yn absenoldeb hynny.**

- **Mofyn eglurhad ar ddyraniadau refeniw SWMG ar gyfer dulliau sydd ddim yn rhoi Ynni o Wastraff, a chyfleoedd mewn perthynas â'r gefnogaeth lle mae cyfleusterau ynni o wastraff ar gael i gonsortia cyn 2015/16.**

**12. STATWS RISG**

Cyflwynwyd a nodwyd er gwybodaeth – adroddiad gan Mr. Nigel Truman ynghylch yr uchod.

**13. DYDDIADAU CYFARFODYDD YN Y DYFODOL**

**CYTUNWYD i gynnal cyfarfodydd o'r Pwyllgor hwn ar y dyddiadau a ganlyn :-**

**(a) Lleoliad : Cyngor Sir Ddinbych**

| | | |
|---|---|---|
| **Bwrdd Prosiect** | **-** | **17 Mehefin, 2009 am 2:00pm** |
| **Cyd-bwyllgor** | **-** | **3 Gorffennaf 2009 am 2:00pm** |

**(b) Lleoliad : Cyngor Gwynedd**

| | | |
|---|---|---|
| **Bwrdd Prosiect** | **-** | **3 Medi 2009 am 2:00pm** |
| **Cyd-bwyllgor** | **-** | **17 Medi 2009 am 2:00pm** |

**(c) Lleoliad : Cyngor Sir y Fflint**

| | | |
|---|---|---|
| **Bwrdd Prosiect** | **-** | **27 Tachwedd 2009 am 2:00pm** |
| **Cyd-bwyllgor** | **-** | **9 Rhagfyr 2009 am 2:00pm** |

**14. UNRHYW FUSNES ARALL**

**Cyfranogiad y Gymuned**
Cyflwynwyd – adroddiad gan Gyngor Sir y Fflint ynghylch yr uchod.

Nodwyd bod datblygu cyfleusterau trin gwastraff newydd yn hanesyddol wedi bod yn bwnc cynhennus gyda thrigolion lleol a chydranddeiliaid eraill. Gyda phwysau ychwanegol oherwydd prinder amser a chostau sy'n cynyddu, ni fedr awdurdodau lleol fforddio i fynd trwy apeliadau cynllunio maith a rhai dwyn y cyhoedd i mewn i'r broses cyn gynted ag sy'n bosibl. Yn y diwydiant rheoli gwastraff, mae dwyn y cyhoedd i mewn i'r broses yn arfer safonol a rhaid i'r modd y darperir y gwasanaeth ganolbwyntio mwy ar y cyhoedd fel cwsmeriaid.

Er mwyn goresgyn gwrthdaro posibl a datblygu trafodaeth gynhyrchiol a chydweithrediad, mae angen sicrhau bod gan y gymuned wybodaeth gyfredol a chywir. Cafodd y pecyn cyfranogiad cymunedol ei gynhyrchu ar gyfer Craff am Wastraff yn 2007. Mae yn y pecyn ddogfen ffeithiol lawn ynghylch sut a lle i ymgynghori gyda chydranddeiliaid allweddol wrth gynllunio a darparu cyfleusterau rheoli gwastraff newydd. Cynhyrchwyd y canllawiau o ganlyniad i bartneriaeth rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chraff am Wastraff Cymru. Bydd hyfforddiant ar y pecyn a'r ffordd orau o ddelio gyda newidiadau anodd a chynhennus i wasanaethau a chynllunio'r broses o gymorth i awdurdodau lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill trwy'r prosesau pwrcasu a chynllunio anodd a heriol. Bydd yr hyfforddiant ar yr ymarfer gorau hefyd yn sicrhau cymunedau bod awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ynghylch ymgynghori ac y byddant yn gwneud hynny yn y modd priodol ac yn cymryd i ystyriaeth farn bobl leol a'r angen i fynd drwy'r broses.

Yn ychwanegol at yr hyfforddiant ar gyfranogiad cymunedol, cynigir bod Partneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn gwahodd Rheolwr y Prosiect ac unigolion allweddol eraill o'r consortia yn y De Ddwyrain ('Prosiect Gwyrdd') i gyflwyno sesiwn briffio ar eu profiad nhw a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt hyd yma. Mae Prosiect Gwyrdd yn brosiect tebyg i Bartneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn seiliedig ar bartneriaeth rhwng Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd a Dyffryn Morgannwg. Mae'r prosiect hwn ar hyn o bryd wrthi roi trefn derfynol ar ei hachos busnes amlinellol. Creu Cynllun Busnes Amlinellol ydi un o'r camau pwysicaf nesaf i brosiect Partneriaeth Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.

**Mae angen gwneud gwaith i drefnu'r sesiwn friffio hon gan gynnwys dewis dyddiad, llogi lle, paratoi rhaglen a llunio rhestr fynychu.**

**CYTUNWYD :-**

- **Bod y cydranddeiliaid yn mynychu'r hyfforddiant Cyfranogiad Cymunedol pan fydd ar gael;**
- **Bod sesiwn friffio gan Reolwr Prosiect y Prosiect Gwyrdd yn cael ei threfnu ar gyfer at yr aelodau a'r swyddogion sy'n gysylltiedig gyda Phartneriaeth Rheoli Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru a chydranddeiliaid allweddol eraill;**
- **Cefnogi presenoldeb mewn hyfforddiant yn y dyfodol a sesiynau briffio sy'n berthnasol ac yn briodol i brosiect Partneriaeth Rheoli Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru.**

**Y CYNGHORYDD ERYL WILLIAMS**
**CADEIRYDD**

**EITEM AGENDA RHIF: 6(a)**

# CYNGOR SIR Y FFLINT

**ADRODDIAD I:** **GYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD:** **3 GORFFENNAF 2009**

**ADRODDIAD GAN:** **Y CYFARWYDDWR PROSIECT**

**TESTUN:** **TECHNEGOL AC ARIANNOL**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Mae aelodau Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru wedi cytuno ar gaffael cynghorwyr cyfreithiol, ariannol a thechnegol ar gyfer y prosiect.

**1.2.** Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r diweddaraf i'r Cydbwyllgor am benodi'r cynghorwyr technegol ac ariannol. Cyfeirir yr aelodau hefyd at adroddiad gan y Bwrdd Prosiect sydd wedi'i amgáu ynghylch penodi cynghorwyr cyfreithiol ar gyfer y Prosiect Gwastraff Gweddilliol a gwastraff AD.

## 2. CEFNDIR

2.1. Mae'r Tîm Prosiect yn rheoli'r broses gaffael ar gyfer cynghorwyr technegol a chyfreithiol, mae Ynys Môn yn arwain y broses gaffael ar gyfer Cynghorwyr Technegol ac mae Conwy yn arwain y broses gaffael ar gyfer cynghorwyr ariannol.

## 3. YSTYRIAETHAU

3.1. Mae'r cynghorwyr technegol yn cael eu caffael drwy gyfrwng y llwybr OJEU. Gan fod nifer o gynghorwyr Technegol heb eu rhestru ar y fframwaith OGC ac oherwydd bod y tîm prosiect yn teimlo y byddai defnyddio'r llwybr OJEU yn caniatáu i gynghorwyr technegol â phrofiad mwy addas dendro.

3.2. Mae'r cynghorwyr ariannol yn cael eu sicrhau drwy'r OGC dan y Cytundeb Fframwaith Ymgynghori Amlddisgyblaethol, cod Fframwaith FM353 ac oherwydd bod nifer o gynghorwyr ariannol â phrofiad mwy addas ar y fframwaith OGC.

3.3. Mae'r amserlen Gaffael ar gyfer y cynghorwyr technegol ac ariannol i'w gweld yn y tabl canlynol.

| | Cynghorwyr Technegol | Cynghorwyr Ariannol |
|---|---|---|
| **Cam** | **Dyddiad** | **Dyddiad** |
| Cyflwyno Hysbysiad OJEU | 08 Mai 2009 | Amh |
| Dychwelyd y Tendrau | 23 Mehefin 2009 | 16eg Mehefin 2009 |
| Gwerthuso'r Tendrau | 1 Gorffennaf 2009 | 22 Mehefin 2009 |
| Cyfweliadau | 7 Gorffennaf 2009 | 2 Gorffennaf 2009 |
| Hysbysu o'r bwriad i ddyfarnu | 27 Gorffennaf 2009 | 9 Gorffennaf 2009 |
| Dechrau'r Contract | 29 Gorffennaf 2009 | 20 Gorffennaf 2009 |

3.4. Bydd y rhaglen arfaethedig ar gyfer penodi cynghorwyr yn caniatáu i Achos Busnes Amlinell y Prosiect Gwastraff Gweddilliol ddechrau yn Awst 2009.

**4. ARGYMHELLION**

4.1. Bod y Cydbwyllgor yn sylwi ar y rhaglen ar gyfer penodi'r cynghorwyr technegol a'r cynghorwyr ariannol.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Ddim yn berthnasol

**6. EFFAITH GWRTH DLODI**

6.1. Dim

**7. EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD**

7.1. Ddim yn berthnasol

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEBAU**

8.1. Ddim yn berthnasol

**9. GOBLYGIADAU AR Y PERSONÉL**

9.1. Ddim yn berthnasol

**10. YMGYNGHORI YN OFYNNOL**

10.1. Ddim yn berthnasol

**11. YMGYNGHORI A WNAED**

11.1. Ddim yn berthnasol

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Stephen Penny NWRWTP

**CYNGOR SIR Y FFLINT**

**EITEM AGENDA RHIF: 6(b)**

**ADRODDIAD I:** **BWRDD PROSIECT GWASTRAFF RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD:** **17 MEHEFIN 2009**

**TESTUN:** **PENODI YMGYNGHORWYR CYFREITHIOL AR GYFER PROSIECTAU GWASTRAFF GWEDDILLIOL A THREULIO GWASTRAFF YN ANEROBIG**

## 1.00 DIBEN YR ADRODDIAD

1.01 Cofnodi'n ffurfiol ganlyniad y broses o gaffael ymgynghorwyr cyfreithiol i'r Prosiectau Gwastraff Gweddilliol a Threulio Anerobig.

## 2.00 Y CEFNDIR

2.01 Yn ei gyfarfod diwethaf, penderfynodd Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru ddirprwyo'r pŵer i benodi ymgynghorwyr cyfreithiol i'r Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol ac, er mwyn sicrhau darbodion maint, penderfynwyd, os oedd hynny'n bosibl ac yn briodol, y dylid penodi'r un un ymgynghorwyr i roi cyngor ynghylch y Prosiect Treulio Anerobig. Cyngor Sir Ddinbych yw'r Awdurdod arweiniol yng nghyswllt y prosiect hwnnw.

2.02 Cynhaliwyd y broses drwy fframwaith Swyddfa Masnach y Llywodraeth ac ymatebodd wyth cwmni cyfreithwyr i ddatgan diddordeb mewn cyflwyno cynnig. Daeth dau gynnig i law ac roedd y ddau'n ddigon da i'w cynnwys ar y rhestr fer i'r cyfweld.

2.03 Cynhaliwyd y cyfweliadau mewn cyfarfod ar y cyd rhwng y ddau Fwrdd Prosiect a hynny ddydd Gwener, 15 Mai. Cafodd y ddau gwmni gyfle i roi cyflwyniad ac i ymateb i ddeg cwestiwn a oedd wedi'u paratoi ymlaen llaw.

2.04 Cytunwyd y byddai'r ddau gwmni'n gallu ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol gan wneud hynny i safon uchel ac roedd y llythyrau geirda a gafwyd i ategu eu cynigion yn tystio i hynny. Roedd y cwmni cyntaf, Bevan Brittan, yn bwriadu is-gontractio Prosiect Treulio Anerobig i gwmni arall nad yw'n rhan o fframwaith Swyddfa Masnach y Llywodraeth (ClarksLegal) a daeth cynrychiolwyr o'r ddau gwmni i'r cyfweliad. Pinset Masons gyflwynodd yr ail gynnig, a'u bwriad nhw oedd ymgymryd â'r ddau brosiect eu hunain ac roeddynt wedi creu tîm o swyddogion a fyddai'n gyfrifol am y naill brosiect a'r llall a byddai tîm generig ar gael hefyd i roi cyngor arbennig i'r swyddogion hyn.

**3.00 YSTYRIAETHAU**

3.01 Er bod y ddau Fwrdd yn cytuno y byddai'r ddau gwmni'n gallu ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol gan wneud hynny i safon uchel, ystyriwyd bod cynnig Pinset Masons yn fwy penodol a chlir, o ran y modd roeddynt yn bwriadu trefnu'u hadnoddau a hefyd o ran y modd roeddynt yn trosglwyddo gwybodaeth ac yn rhoi cyngor.

3.02 Aeth y Byrddau Prosiect ati i bwyso a mesur y cynigion ac mae'r canlyniadau i'w gweld yn Atodiad A. Dyma'r sgorau terfynol:

**Prosiect Gwastraff Gweddilliol**

Sgôr Pinsent Masons 1000
Sgôr Bevan Brittan 918

**Prosiect AD Waste**
Sgôr Pinsent Masons 1000
Sgôr Bevan Brittan 941

3.03 Er gwybodaeth, nodir yn Atodiad B sut aethpwyd ati i bwyso a mesur y cynigion

3.04 Ar ôl rhoi'r cytundeb i Pinsent Masons, trefnwyd iddynt gynnal gweithdy gyda phrif Swyddogion ac Aelodau'r pum Awdurdod sydd ynghlwm wrth y cytundeb gwastraff gweddilliol i ddatblygu cytundeb rhwng yr Awdurdodau ynglŷn â'r gwahanol gamau yn y prosiect.

**4.00 Argymhellion**

4.01 Dylid nodi'r penderfyniad i benodi Pinsent Masons yn ymgynghorwyr ar gyfer y ddau brosiect.

5.00 **Y GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.01 Mae ymrwymiad cychwynnol y pum Awdurdod yn ymwneud â Cham 1 o'r prosiect yn unig, a chyflwynodd Pinsent Masons bris penodol o £12,500 ar gyfer cytundeb y gwastraff gweddilliol a £13,500 ar gyfer y cytundeb treulio anerobig. Defnyddir grantiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i dalu'r costau hyn.

6.00 **YR EFFAITH AR LEIHAU TLODI**

6.01 Amherthnasol

7.00 **YR EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD**

7.01 Amherthnasol

8.00 **YR EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

8.01 Amherthnasol

9.00 **Y GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL**

9.01 Amherthnasol

10.00 **YMGYNGHORI GOFYNNOL**

10.01 Y Bwrdd Prosiect a’r Cydbwyllgor Gwastraff

11.00 **YMGYNGHORI A WNAED**

11.01 Y Bwrdd Prosiect a’r Cydbwyllgor Gwastraff

12.00 **ATODIADAU**

12.01 Atodiad A – Sgorau

Atodiad B - Dull o Werthuso

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 DOGFENNAU CEFNDIR**

Fel y cyfeirir atynt yn yr adroddiad

Swyddog Cyswllt: Barry Davies
Rhif ffôn: 01352 702344
E-bost barry_davies@flintshire.gv.uk

**Dyddiad: 21/05/2009**

**ATODIAD A**

**Bevan Brittan – Gwastraff Gweddilliol**

| | | Eglurder | | Arloesedd | | Dichonoldeb | | % | | Pwyntiau ar gael | | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Llwyddiannus | 30 | + | 35 | + | 35 | = | 100 | x | 140 | = | **140** |
| 2. | Datblygiad | 20 | + | 20 | + | 20 | = | 60 | x | 48 | = | **29** |
| 3. | Cyd-destun Cymreig | 30 | + | 20 | + | 50 | = | 100 | x | 78 | = | **78** |
| 4. | Strategaeth gyffredinol | 25 | + | 15 | + | 40 | = | 80 | x | 138 | = | **110** |
| 5. | Cydweithredu | 30 | + | 25 | + | 30 | = | 85 | x | 108 | = | **92** |
| 6. | Trefniadau trawsddisgyblaethol | 30 | + | 25 | + | 30 | = | 85 | x | 48 | = | **41** |
| 7. | Adnoddau | 30 | + | 25 | + | 30 | = | 85 | x | 63 | = | **54** |
| 8. | Amserlenni | 35 | + | 25 | + | 40 | = | 100 | x | 48 | = | **48** |
| 9. | Cyflwyno syniadau'n glir | 25 | + | 10 | + | 35 | = | 70 | x | 48 | = | **34** |
| 10. | Gallu i wrando ac ymateb a sgiliau trin pobl | 25 | + | 10 | + | 35 | = | 70 | x | 48 | = | **34** |
| 11. | Gwerth ychwanegol | 50 | + | 20 | + | 30 | = | 100 | x | 33 | = | **33** |
| | | | | | | | | | **Cyfanswm** | | | **693** |

**Pinsent Masons – Gwastraff Gweddilliol**

| | | Eglurder | | Arloesedd | | Dichonoldeb | | % | | Pwyntiau ar gael | | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Llwyddiannus | 30 | + | 35 | + | 35 | = | 100 | x | 140 | = | **140** |
| 2. | Datblygiad | 25 | + | 30 | + | 30 | = | 85 | x | 48 | = | **41** |
| 3. | Cyd-destun Cymreig | 30 | + | 20 | + | 50 | = | 100 | x | 78 | = | **78** |
| 4. | Strategaeth gyfferedinol | 25 | + | 15 | + | 40 | = | 80 | x | 138 | = | **110** |
| 5. | Cydweithredu | 35 | + | 30 | + | 35 | = | 100 | x | 108 | = | **108** |
| 6. | Trefniadau trawsddisgyblaethol | 30 | + | 25 | + | 30 | = | 85 | x | 48 | = | **41** |
| 7. | Adnoddau | 35 | + | 30 | + | 35 | = | 100 | x | 63 | = | **63** |
| 8. | Amserlenni | 35 | + | 25 | + | 40 | = | 100 | x | 48 | = | **48** |
| 9. | Cyflwyno syniadau'n glir | 35 | + | 10 | + | 35 | = | 80 | x | 48 | = | **39** |
| 10. | Gallu i wrando ac ymateb a sgiliau trin pobl | 30 | + | 10 | + | 35 | = | 75 | x | 48 | = | **36** |
| 11. | Gwerth ychwanegol | 50 | + | 20 | + | 30 | = | 100 | x | 33 | = | **33** |
| | | | | | | | | | **Cyfanswm** | | | **736** |

**Bevan Brittan – Treulio Anerobig**

| | | Eglurder | | Arloesedd | | Dichonoldeb | | % | | Pwyntiau ar gael | | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Llwyddiannus | 30 | + | 35 | + | 35 | = | 100 | x | 140 | = | **140** |
| 2. | Datblygiad | 20 | + | 20 | + | 20 | = | 60 | x | 48 | = | **29** |
| 3. | Cyd-destun Cymreig | 30 | + | 20 | + | 50 | = | 100 | x | 78 | = | **78** |
| 4. | Strategaeth gyffredinol | 25 | + | 15 | + | 40 | = | 80 | x | 138 | = | **110** |
| 5. | Cydweithredu | 32 | + | 27 | + | 32 | = | 91 | x | 108 | = | **98** |
| 6. | Trefniadau trawsddisgyblaethol | 30 | + | 25 | + | 30 | = | 85 | x | 48 | = | **41** |
| 7. | Adnoddau | 30 | + | 25 | + | 30 | = | 85 | x | 63 | = | **54** |
| 8. | Amserlenni | 35 | + | 25 | + | 40 | = | 100 | x | 48 | = | **48** |
| 9. | Cyflwyno synaidau'n glir | 35 | + | 15 | + | 35 | = | 85 | x | 48 | = | **41** |
| 10. | Gallu i wranod ac ymateb a sgiliau trin pobl | 35 | + | 15 | + | 35 | = | 85 | x | 48 | = | **41** |
| 11. | Gwerth ychwanegol | 50 | + | 20 | + | 30 | = | 100 | x | 33 | = | **33** |
| | | | | | | | | | **Cyfanswm** | | | **713** |

**<u>Pinsent Masons – Treulio Anerobig</u>**

| | | Eglurder | | Arloesedd | | Dichonoldeb | | % | | Pwyntiau ar gael | | Sgôr |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. | Llwyddianns | 30 | + | 35 | + | 35 | = | 100 | x | 140 | = | **140** |
| 2. | Datblygiad | 25 | + | 30 | + | 30 | = | 85 | x | 48 | = | **41** |
| 3. | Cyd-destun Cymreig | 30 | + | 20 | + | 50 | = | 100 | x | 78 | = | **78** |
| 4. | Strategaeth gyffredinol | 25 | + | 15 | + | 40 | = | 80 | x | 138 | = | **110** |
| 5. | Cydweithredu | 35 | + | 30 | + | 35 | = | 100 | x | 108 | = | **108** |
| 6. | Trefniadau trawsddisgyblaethol | 30 | + | 25 | + | 30 | = | 85 | x | 48 | = | **41** |
| 7. | Adnoddau | 35 | + | 30 | + | 35 | = | 100 | x | 63 | = | **63** |
| 8. | Amserlenni | 35 | + | 25 | + | 40 | = | 100 | x | 48 | = | **48** |
| 9. | Cyflwyno syniadau'n glir | 10 | + | 35 | = | 80 | x | 48 | = | **38** | | |
| 10. | Gallu i wrando ac ymateb a sgiliau rhyngbersonol | 30 | + | 10 | + | 35 | = | 75 | x | 48 | = | **36** |
| 11. | Gwerth ychwanegol | 50 | + | 20 | + | 30 | = | 100 | x | 33 | = | **33** |
| | | | | | | | | | **<u>Cyfanswm</u>** | | | **<u>736</u>** |

**SGORAU TERFYNOL YN DILYN Y BROSES WERTHUSO**

**<u>GWASTRAFF GWEDDILLIOL</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bevan Brittan | 693 | ) | 5.8% |
| Pinsent Masons | 736 | ) | o wahaniaeth |

Pinsent felly'n sicrhau uchafswm o 800 pwynt am ansawdd

Bevan - gostyngiad o 5.8% (46 pwynt) ar yr 800 pwynt felly maent yn cael 754 pwynt am ansawdd

Ychwanegu'r Sgôr Prisiau o ddogfen 8

Sgôr Pinsent Masons 800 + 200 = **<u>1000</u>**

Bevan Brittan 754 + 164 = **<u>918</u>**

**SGORAU TERFYNOL YN DILYN PROSES WERTHUSO**

**<u>TREULIO ANEROBIG</u>**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bevan Brittan | 713 | ) | 3.1% |
| Pinsent Masons | 736 | ) | o wahaniaeth |

Pinsent felly'n sicrhau uchafswm o 800 pwynt am ansawdd

Bevan - gostyngiad o 3.1% (25 pwynt)
ar yr 800 pwynt felly maent yn cael 775 pwynt am ansawdd

Ychwanegu'r Sgôr Prisiau o ddogfen 8

Sgôr Pinsent Masons 800 + 200 = **<u>1000</u>**

Sgôr Bevan Brittan 775 + 166 = **<u>941</u>**

**ATODIAD B**

## 1. Dull gwerthuso - treulio anerobig

1.1 Caiff yr holl dendrau a gyflwynir eu gwerthuso'n annibynnol ar ei gilydd a bydd pob cam yn y broses brisio (Cam 1 a Cham 2 a 3) hefyd yn cael ei werthuso'n annibynnol. Os bydd cwmni'n cynnig pris ar gyfer pob un o'r camau, caiff y cynnig yn ei gyfanrwydd ei werthuso hefyd.

1.2 Y trothwy ar gyfer cyrraedd y rhestr fer a chael cyfweliad fydd sgorio 100% yng nghyswllt ffactor 8, sef y gallu i gadw at amserlenni a'r terfynau amser gofynnol.

1.3 Yn amodol ar 1.2 uchod, rhan gyntaf y broses fydd gwerthuso ansawdd a defnyddir system sgorio 800 pwynt, gan roi pwyntiau am gyd-destun, yn seiliedig ar asesiad o eglurder, arloesed a dichonolrwydd yr hyn sy'n cael ei addo, yn unol â'r tabl isod. Dylid nodi y bydd ffactor 9 a 10 yn arbennig o berthnasol i unrhyw gyfweliad a gynhelir.

| | **Ffactor** | **Pwyntiau ar gael (pwysiad cyffredinol)** | | **Ffactorau sydd â phwysiad** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Eglurder** | **Arloesedd** | **Dichonolrwydd** |
| 1 | Ynghlwm wrth brosiectau mawr a pherthnasol yn ymwneud â gwastraff ar hyn o bryd neu'n ddiweddar a hynny'n llwyddiannus | 140 | 17.5% | 30 | 35 | 35 |
| 2 | Ynghlwm wrth ddatblygu canllawiau a/neu statud ym maes gwastraff | 48 | 6% | 25 | 40 | 35 |
| 3 | Dangos dealltwriaeth o'r cyd-destun Cymreig | 78 | 9.75% | 30 | 20 | 50 |
| 4 | Strategaeth gyffredinol i gynnwys llif gwaith/tasgau priodol sy'n dangos dealltwriaeth o'r gofynion | 138 | 17.25% | 30 | 20 | 50 |
| 5 | Dangos profiad o weithio ar y cyd yng nghyd-destun Llywodraeth Leol | 108 | 13.5% | 35 | 30 | 35 |
| 6 | Cydweithredu rhwng gwahanol ddisgyblaethau | 48 | 6% | 35 | 30 | 35 |
| 7 | Adnoddau'n cynnwys staff allweddol | 63 | 7.9% | 35 | 30 | 35 |
| 8 | Y gallu i gadw at amserlenni a/neu derfynau amser | 48 | 6% | 35 | 25 | 40 |
| 9 | Syniadau'n cael eu cyflwyno'n glir | 48 | 6% | 40 | 20 | 40 |
| 10 | Y gallu i wrando ac ymateb ac i drin pobl | 48 | 6% | 40 | 20 | 40 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 11 | Gwerth ychwanegol | 33 | 4.1% | 50 | 20 | 30 |
| | **Cyfanswm** | **800** | **100%** | | | |

1.4 Wrth asesu ‘dichonolrwydd’ bydd gallu’r contractiwr i ddangos ei fod wedi llwyddo i berfformio’n debyg eisoes yn effeithio ar y sgôr. Yn yr un modd, bydd profiad a hanes y staff a fydd yn rheoli ac yn goruchwylio’r gwasanaeth hefyd yn bwysig.

1.5 Ar ddiwedd rhan gyntaf y broses, bydd y tendr sydd â’r sgôr uchaf am ansawdd yn cael y sgôr llawn o 800 pwynt. Caiff ansawdd y tendrau eraill eu troi’n ganran o’r tendr ansawdd gorau mewn cyfrannedd â’r sgorau cymharol.

1.6 Ail ran y broses fydd gwerthuso costau, gyda’r tendr cyfunol isaf o dan bob dewis yn cael y sgôr uchaf bosibl h.y. 200 pwynt. Bydd sgôr costau’r tendrau cyfunol eraill mewn cyfrannedd wrthdro â sgôr y tendr isaf. Er enghraifft; byddai tendr cyfunol a oedd 10% yn ddrutach na’r tendr rhataf yn sgorio 180 o bwyntiau yn y model gwerthuso costau.

1.7 Yna caiff sgorau’r gost a’r ansawdd eu cydgrynhoi i roi’r safle a’r sgôr uchaf yn gyffredinol, a’r tendr â’r sgôr uchaf fydd y tendr sydd â’r Manteision Economaidd Mwyaf. Er hwylustod, y sgôr uchaf bosibl fydd 1,000 o bwyntiau. Os oes dau neu ragor o ddewisiadau o ran sgôr gyfartal, yna bydd y tendr neu’r cyfuniad o dendrau sydd â’r sgôr isaf yn symud ymlaen i’r Penderfyniad Terfynol.

**EITEM AGENDA RHIF: 7**

# CYNGOR SIR Y FFLINT

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **GYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU** |
| **DYDDIAD:** | **3 GORFFENNAF 2009** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **ARWEINYDD RHEOLI PROSIECT** |
| **TESTUN:** | **ACHOS BUSNES AMLINELLOL** |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Yn rhy aml, mae gormod o strategaethau, rhaglenni a phrosiectau yn y sector cyhoeddus yn methu â chyflawni eu hamcanion a chyflenwi manteision disgwyliedig am nad yw cyfnodau allweddol y buddsoddiad wedi'u hystyried a'u cynllunio'n ddigonol ac nad yw'r risgiau cysylltiedig wedi'u cymryd i ystyriaeth.

1.2. Dyma paham y mae cynhyrchu'r Achos Busnes Amlinellol (OBC) mor bwysig. Yr OBC yw'r erfyn cynllunio a rheoli a fydd yn galluogi Bwrdd y Prosiect, y Cydbwyllgor, y 5 awdurdod sy'n ffurfio'r bartneriaeth, a LlCC i gael gwybod bod y cynnig:

- yn cael ei gefnogi gan achos cadarn dros newid sy'n darparu synergedd strategol – yr **Achos Strategol**
- yn optimeiddio gwerth yr Arian – yr **Achos Economaidd**
- yn fasnachol hyfyw – yr **Achos Masnachol**
- yn ariannol fforddiadwy – yr **Achos Ariannol**
- â modd ei gyflenwi'n llwyddiannus – yr **Achos Rheoli**

1.3. Un o gynhyrchion allweddol cam nesaf y prosiect NWRWT yw'r Achos Busnes Amlinellol (OBC). Bydd y ddogfen wedi'i seilio ar dempled 'Model 5 Achos' OBC a chanllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC).

1.4. Bydd yr adroddiad hwn yn amlinellu adrannau allweddol yr OBC ac yn dangos bod yr OBC yn gyfrwng addas i ennill sêl bendith i symud ymlaen i gyfnod caffael y prosiect ac yn sicrhau bod y cydrannau uchod yn cael eu bodloni.

## 2. CEFNDIR

2.1. Pwrpas mynnu bod y NWRWTP yn cyflwyno OBC i LlCC yw:

- Sicrhau bod gwaith a gwasanaethau disgwyliedig ar gyfer trin gwastraff gweddilliol yn ffurfio rhan o strategaeth gyffredinol i gwrdd â gofynion statudol awdurdodau lleol
- Sicrhau bod gwaith a gwasanaethau o'r fath yn gyfunion â'r strategaeth gwastraff i Gymru sy'n dod i'r amlwg
- Sicrhau bod o leiaf un ateb darparadwy a fforddiadwy ar gyfer anghenion trin awdurdodau lleol gogyfer â gwastraff gweddilliol
- Darparu modd yn ôl pa un y gall consortia awdurdodau lleol wneud cais i LlCC am gymorth ariannol i gyfrannu at gost y gwaith a'r gwasanaethau go iawn sydd i'w caffael

2.2. Mae LlCC yn ystyried y bydd datblygu OBC cadarn yn cefnogi datblygu, cynllunio, caffael a gweithredu'r prosiect cymhleth hwn yn llwyddiannus ac yn lliniaru'r risg o oedi posibl a materion yn ymwneud â fforddiadwyedd yng nghyfnodau diweddarach caffael.

2.3. Mae'r templed OBC wedi'i ddatblygu gan gymryd gofynion y 'Model 5 Achos', a gymeradwyir gan yr Adran Gyllid yn LlCC a Thrysorlys EM, i ystyriaeth. Mae'r templed yn cymryd gofynion allweddol y 'Model 5 Achos' ac yn adlewyrchu sut y maent a wnelo â phrosiect seilwaith gwastraff gweddilliol. Bydd saith adran i'r OBC:

**2.3.1. Crynodeb Gweithredol –** crynodeb o'r pwyntiau allweddol a amlinellir yn y chwe adran arall.

**2.3.2. Cefndir y Prosiect –** disgrifiad cynhwysfawr o gefndir y prosiect.

**2.3.3. Yr Achos Strategol –** yn amlinellu sail resymegol y prosiect ac yn cyflwyno'r achos dros newid ar lefel strategol. Dylai'r adran hon ddangos bod y prosiect arfaethedig yn gyson â Phapur Cyfeiriadau'r Dyfodol y Gweinidog dros yr Amgylchedd a'r addasiadau i'r Strategaeth Gwastraff Genedlaethol sy'n dod i'r amlwg.

**2.3.4. Yr Achos Economaidd –** craidd hanfodol yr achos busnes. Mae'r adran hon yn asesu cost economaidd a manteision y prosiect i gymdeithas yn ei chyfanrwydd, ac yn rhychwantu'r cyfnod cyfan y mae'r cynnig yn ei gwmpasu. Bydd yn cynnwys dadansoddiad cost a budd ble mae'r costau economaidd a'r manteision yn cael eu cyfrifo ar gyfer pob blwyddyn y mae'r cynnig yn ei chwmpasu. Bydd hefyd yn cynnwys Dadansoddiad o'r Opsiynau sy'n cynnwys ystyriaeth ddigon eang o opsiynau eraill ar gyfer cyflawni'r canlyniad a ddymunir. Mae LlCC (Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai) wedi cynhyrchu Fframwaith Gwerthuso Cenedlaethol sy'n rhaid ei ddefnyddio wrth asesu opsiynau o fewn yr OBC. Bydd y Dadansoddiad o'r Opsiynau yn dechrau gyda rhestr hir o'r holl ddewisiadau eraill rhesymol yn cynnwys opsiwn 'gwneud dim' neu 'wneud y lleiaf'. Bydd y rhestr hir ddechreuol yn cael ei lleihau'n rhestr fer o opsiynau sy'n cael eu hystyried yn fwy manwl wedyn. Bydd y gwerthusiad opsiynau hwn yn clustnodi'r ateb Cyfeirio. Bydd yr Ateb Cyfeirio yn clustnodi ateb technegol penodol a safle(oedd) a fydd yn cwrdd ag

amcanion y prosiect. Er hynny, bydd y broses gaffael ddilynol yn annog cyfranogwyr (cynigyddion) i ddod ag amrediad o atebion posibl yn eu blaen. Felly efallai nad yr achos cyfeirio fydd yr ateb terfynol a fydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer y bartneriaeth.

**2.3.5.** **Yr Achos Masnachol –** a wnelo â materion dichonoldeb masnachol. Bwriad yr adran hon yw ateb y cwestiwn 'All yr ateb arfaethedig gael ei gyflenwi'n effeithiol drwy ddêl neu ddeliau masnachol dichonadwy?' Bydd y strategaeth gaffael yn cael ei hamlinellu'n glir ynghyd â pherchenogaeth unrhyw asedau, materion cytundebol allweddol, risgiau, cerrig milltir cytundebol allweddol, triniaeth gyfrifyddu gytûn, a'r ateb Cyfeirio.

**2.3.6.** **Yr Achos Ariannol –** yn ymdrin â materion fforddiadwyedd a ffynonellau cyllid y gyllideb. Bydd yr adran hon yn dangos bod gan y bartneriaeth ddealltwriaeth dda o'r ymarferiad caffael a'i bod wedi sicrhau sêl bendith yr Aelodau i'r goblygiadau o ran fforddiadwyedd.

**2.3.7.** **Yr Achos Rheoli –** a wnelo â darparadwyedd y cynnig. Bydd yn amlinellu'n glir gyfrifoldebau rheoli, llywodraethu, a threfniadau adrodd. Bydd yr Uwch Swyddog Cyfrifol yn cael ei enwi a chynllun cyflenwi gyda cherrig milltir clir yn cael ei nodi'n fanwl.

## 3. YSTYRIAETHAU

3.1. Bydd angen adnoddau sylweddol o ran Swyddogion ac Ymgynghorwyr i gynhyrchu OBC sy'n addas o fanwl a chywir. Bydd yr adnoddau hyn yn cynnwys Cyllid, Cyfreithiol, Gwastraff, a swyddogion eraill fel y bo'n briodol o bob un o'r pum Awdurdod. Er y bydd y baich gwaith yn cael ei drefnu i ragweld y galw, bydd y gwaith hwn yn ychwanegol i feichiau gwaith arferol swyddogion a bydd yn creu materion yn ymwneud â chapasiti sydd ag angen eu rheoli'n ofalus. Bydd yr ymdrech hwn yn fuddiol os yw'r ddogfen yn dryloyw:

3.1.1. yn clustnodi opsiwn dewisol sy'n optimeiddio Gwerth yr Arian yn eglur

3.1.2. yn amlinellu'r Ddêl debygol

3.1.3. yn dangos ei fforddiadwyedd

3.1.4. ym manylu at y strategaeth Gaffael ategol

3.1.5. yn manylu ar y trefniadau rheoli i gyflenwi'r cyfleuster trin gwastraff gweddilliol yn llwyddiannus

3.2. Mae LlCC wedi cadarnhau bod rhaid cael archwiliad iechyd cynllunio wedi'i gwblhau i fynd gyda'r OBC. Bwriad yr asesiad hwn yw helpu i sicrhau y bydd caniatâd cynllunio yn debygol o fod i'w gael ar gyfer cyfleusterau trin gwastraff trefol mewn perthynas â pha rai y gofynnir am sêl bendith LlCC ar gyfer cefnogaeth caffael a chyllid i'r prosiect gan yr Awdurdod Lleol. Mae'r asesiad yn gyntaf yn amlinellu'r meini prawf y bydd LlCC yn asesu cynigion yr OBC yn eu herbyn ac yn ail yn amlinellu cyfres o gwestiynau y gall awdurdodau sy'n caffael ofyn iddynt hwy eu hunain i asesu'r materion sydd a wnelo â chynllunio a safleoedd sy'n gysylltiedig

â'u prosiect mewn perthynas â meini prawf gwerthuso'r OBC.  Bydd angen ffrwd waith o fewn y prosiect i asesu pa waith ychwanegol fydd ei angen mewn perthynas â safleoedd a chynllunio er mwyn sicrhau canlyniad llwyddiannus i'r prosiect a sicrhau bod LlCC yn derbyn yr OBC a'r Archwiliad Iechyd Cynllunio.

**4. ARGYMHELLION**

4.1. Bod y Cydbwyllgor a Bwrdd y Prosiect yn cydnabod pwysigrwydd bod â dogfen OBC fanwl a chywir ac yn cefnogi Tîm y Prosiect wrth greu'r OBC.
4.2. Unwaith y mae'r amserlen ar gyfer cwblhau'r OBC yn hysbys, bod pob Awdurdod i ymgymryd ag Archwiliad Capasiti i sicrhau bod adnoddau ar gael i gefnogi creu'r OBC.  Rhaid hysbysu Cyfarwyddwr y Prosiect cyn gynted â phosibl o'r holl faterion rhagweledig yn ymwneud â chapasiti adnoddau swyddogion.
4.3. Bod y Cydbwyllgor a Bwrdd y Prosiect yn awdurdodi Cyfarwyddwr y Prosiect i ddatblygu ffrwd waith prosiect cynllunio a safleoedd ac adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Cydbwyllgor a Bwrdd y Prosiect.

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Mae gan Gyllideb bresennol y Prosiect ddarpariaeth ar gyfer cynhyrchu OBC.

**6. EFFAITH AR WRTHDLODI**

6.1. Dim

**7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

7.1. Bydd yr OBC yn cynnwys gwerthusiad o'r opsiynau a fydd yn ceisio clustnodi ateb trin gwastraff gweddilliol darparadwy a chynaliadwy.

**8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEBAU**

8.1. Dim yn berthnasol.

**9. GOBLYGIADAU O RAN PERSONÉL**

9.1. Dim yn berthnasol

**10. YMGYNGHORI SYDD EI ANGEN**

10.1. Dim yn berthnasol

**11. YMGYNGHORI A WNAED**

11.1. Stephen Penny (Cyfarwyddwr Prosiect NWRWP Dros Dro)

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Rhaglen Gaffael Gwastraff: Fframwaith Gwerthuso Cenedlaethol, Prosiectau Trin Bwyd a Gwastraff Gweddilliol
Fersiwn 5.0 – 25/11/08, DRAFFT TERFYNOL

FFRAMWAITH CYNLLUNIO - PROSIECTAU CAFFAEL GWASTRAFF YNG NGHYMRU (LlCC)

Rhaglen Gaffael Gwastraff Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, Templed Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Cyfleusterau Trin Gwastraff Gweddilliol

**Swyddog Cyswllt:**
Enid Roberts (Cyngor Bwrdeistref Sirol CONWY)

**EITEM AGENDA RHIF: 9**

# CYNGOR SIR Y FFLINT

**ADRODDIAD I:** **GYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD:** **3 GORFFENNAF 2009**

**ADRODDIAD GAN:** **Y CYFARWYDDWR PROSIECT**

**TESTUN:** **RIR – DIWEDDARIAD AR Y STATWS RISG**

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1. Mae aelodau Cydbwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru wedi gofyn am ddiweddariad ar y gofrestr risg ym mhob cyfarfod o'r Cydbwyllgor.

**1.2.** Bydd yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at rai o'r diwygiadau i'r gofrestr risg a wnaed i adlewyrchu'r ddealltwriaeth bresennol o'r risgiau a'r mesurau lliniaru sydd wedi'u sefydlu.

## 2. CEFNDIR

2.1. Bydd angen i'r Gofrestr Risg, fel yr ystyriwyd gan farchnata'r pwyllgor hwn yn y gorffennol, gael ei diweddaru'n barhaus gydol oes y prosiect.

2.2. Mae'r Cyfarwyddwr Prosiect a benodwyd yn ddiweddar wedi cynnal adolygiad cychwynnol o'r gofrestr risg ac mae wedi ei diweddaru fel sy'n briodol.

## 3. YSTYRIAETHAU

Mae'r gofrestr risg wedi cael ei diweddaru fel y gwelir yn yr atodiad sydd ynghlwm.

| Risg bresennol | **Diwygio** | **Rheswm am y diwygio** |
|---|---|---|
| Risg T2 Caniatâd cynllunio ddim yn cael ei roi yn y safleoedd a ddynodwyd | Datblygu Llif Gwaith cynllunio / safleoedd o fewn y prosiect er mwyn sicrhau bod y risgiau hyn yn cael eu rheoli'n ddigonol. | Mwy o bosibilrwydd y ceir canlyniad cynllunio llwyddiannus. |
| Risg T4 (Oedi yn y broses gaffael yn arwain at gostau caffael cynyddol) | Rhannwyd y risg yn T4a oedi yn y broses gaffael yn arwain at gostau caffael cynyddol (oherwydd proses gaffael estynedig) a T4b | Er mwyn adlewyrchu'n well ffynhonnell y risgiau ac annog rheolaethau penodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | Oedi yn y broses gaffael yn arwain at gostau caffael cynyddol (oherwydd prosesau Cymeradwyo estynedig). | |
| P1 Un o'r ALl partner yn tynnu'n ôl yn ystod PQQ | Y gofyn i gytundeb partneriaeth fod ar gael i bob ALl gytuno arno cyn cyhoeddi'r hysbysiad OJEU. | Sicrhau bod pob awdurdod partner yn deall goblygiadau tynnu'n ôl o'r broses gaffael ar ôl OJEU. |
| P13 Yr atebion technolegol ddim yn gomisiynadwy o fewn amserlenni tor-dyletswydd ALlau | Cychwyn llif gwaith ateb interim os yw proses modelu achosion cyfeiriad yr OBC yn dynodi bod ateb interim yn ofynnol. | Risg tor-dyletswydd ALlau yn cael ei rheoli'n briodol ar gyfer yr holl ALlau partner. |

3.1. Sylwer y bydd y tîm prosiect ynghyd â'r cynghorwyr cyfreithiol, technegol ac ariannol yn cynnal adolygiad sylfaenol o risgiau, a'r gofrestr risg pan fydd yr holl gynghorwyr wedi'u penodi. Bydd y gofrestr wedi'i diweddaru'n llwyr yn cael ei chyflwyno gerbron cyfarfod nesaf y pwyllgor hwn.

## 4. ARGYMHELLION

4.1. Bod y Cydbwyllgor yn sylwi ar y gofrestr risg wedi'i diweddaru ar gyfer y prosiect.

## 5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Ddim yn berthnasol

## 6. EFFAITH GWRTH DLODI

6.1. Dim

## 7. EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD

7.1. Ddim yn berthnasol

## 8. EFFAITH AR GYDRADDOLDEBAU

8.1. Ddim yn berthnasol

## 9. GOBLYGIADAU AR Y PERSONÉL

9.1. Ddim yn berthnasol

## 10. YMGYNGHORI YN OFYNNOL

10.1. Ddim yn berthnasol

## 11. YMGYNGHORI A WNAED

11.1. Ddim yn berthnasol

**DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL 1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim

**Swyddog Cyswllt:** Stephen Penny NWRWTP

**EITEM AGENDA RHIF: 11**

# CYNGOR SIR Y FFLINT

**ADRODDIAD I:** **GYDBWYLLGOR GWASTRAFF GWEDDILLIOL GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD:** **3 GORFFENNAF 2009**

**ADRODDIAD GAN:** **Y TRYSORYDD**

**TESTUN:** **DIWEDDARIAD CYLLID**

## 1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD

1.01 Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i Fwrdd y Prosiect ar seiliau presennol cyllido'r prosiect, gan gynnwys ail broffilio grant Cyllid Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol a chynigion ar gyfer datblygu datganiad proffil ariannol diwygiedig ar gyfer monitro yn y dyfodol gan y Bwrdd.

## 2.00 CEFNDIR

2.01 Gwnaed cytundeb ffurfiol fis Tachwedd 2008 rhwng y pum Awdurdod Lleol sy'n bartneriaid ym Mhartneriaeth Trin Gwastraff Gogledd Cymru a oedd yn cynnwys cylch gorchwyl clir yn dangos sut y bydd y Cydbwyllgor yn gweithio a sut y cymerir penderfyniadau allweddol ynghylch y prosiect.

2.02 Cynghorir y Cydbwyllgor gan Fwrdd y Prosiect sy'n cynnwys Prif Weithredwr yr Awdurdod Arweiniol (Cyngor Sir y Fflint), un Cyfarwyddwr o bob un o'r pedwar Awdurdod arall, Cyfarwyddwr Prosiect, Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Arweiniol, Swyddog Monitro'r Awdurdod Arweiniol a phartïon allanol eraill yn ôl y gofyn.

2.03 Mae cylch gorchwyl y Cydbwyllgor yn dweud y bydd Bwrdd y Prosiect yn monitro'r Prosiect er mwyn sicrhau y bydd yn cadw at y gyllideb.

## 3.00 YSTYRIAETHAU

3.01 Fis hydref 2008, cytunodd y pum Awdurdod sy'n cymryd rhan i gyfrannu cyllid at gostau cychwynnol prosiect gwaredu gwastraff cyfun o £0.990 miliwn yr un yn y cyfnod 2008/09 i 2011/12.

3.02 Yn dilyn hynny, rhannwyd y gwaith caffael gwreiddiol ar gyfer y contract Gwaredu Gwastraff cyfun i ddwy ffrwd waith wahanol (gweddilliol a bwyd). Er mwyn cydnabod hyn, rhannwyd y costau caffael a ragwelwyd o £4.793 miliwn rhwng y ddau brosiect gyda chostau'r prosiect Gwastraff Gweddilliol yn £3.958 miliwn a chostau'r prosiect Gwastraff Bwyd yn £0.835 miliwn (gan gynnwys symiau wrth gefn o 15% dros 4 a 3 blynedd yr un). Y canlyniad yw bod cyfraniad y pum awdurdod sy'n cymryd rhan yn y prosiect Gwastraff Gweddilliol erbyn hyn yn £0.818 miliwn ar gyfer y prosiect penodol hwn (82% o £0.990m).

3.03 Yn ychwanegol at brif ffynhonnell hon o incwm, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi grant i bartneriaeth y prosiect o hyd at £0.670 o'r Gronfa Mynediad i Gyfalaf Rhanbarthol - Caffael. Mae'r cyllid hwn er mwyn cefnogi Rhan 1, Paratoi'r Prosiect, Rhan 2, Amlinelliad o Achos Busnes a Rhan 3, Gweithgareddau Caffael. Ceir manylion y rhain yn nhrefniadau Sicrwydd Ansawdd Swyddfa Rhaglenni Gwastraff yr Adran Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn Atodiad A i lythyr cynnig grant Llywodraeth Cynulliad Cymru. Rhennir y grant fel y dangosir yn Nhabl 1 isod :-

Tabl 1:

| **Cyfnod** | **Gweithgaredd (gweler trefniadau Sicrwydd Ansawdd yn Atodiad A)** | **Cap Cyllid £m** |
|---|---|---|
| 1 Ebrill 2008 i 31ain Mawrth 2009 | Rhan 1 Paratoi'r Prosiect | 0.075 |
| 1 Ebrill 2008 i 31ain Mawrth 2009 | Rhan 2 Paratoi Achos Busnes | 0.195 |
| 1 Ebrill 2009 i 31ain Mawrth 2010 | Rhan 3 Gweithgareddau Caffael | 0.200 |
| 1 Ebrill 2010 i 31ain Mawrth 2011 | Rhan 3 Gweithgareddau Caffael | 0.200 |
| | CYFANSWM: | 0.670 |

3.04 Ceir proffil y grant dros y blynyddoedd ariannol, fel y dangosir yn Nhabl 1 uchod, yn y llythyr cynnig grant gwreiddiol. Gan y bydd cyfnodau rhannau cynnar y prosiect erbyn hyn yn wahanol i'r rhai yn y cynnig grant, cododd pryder y gallai fod amheuaeth ynghylch y swm a broffiliwyd ar gyfer 2008 / 09 o £0.270 miliwn ((£0.075m a £0.195m). Cafwyd cytundeb llafar oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru y gellir ail broffilio cyfanswm y grant dros Gyfnod Caffael y prosiect. Cytunwyd y bydd manylion yr ail broffilio'n cael eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad yn dilyn cyfarfod o'r Bwrdd.

3.05 Rhagwelwyd erioed y byddai'r grant yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Rheoli Prosiect a chostau cysylltiedig. Penodwyd Rheolwr Prosiect Dros Dro, Mr Stephen Penny ddechrau Mai ar sail tri diwrnod yr wythnos a dechreuodd ar ei waith ar 11 Mai 2009. Mae'r broses o benodi Rheolwr Prosiect ar y gweill a bydd yn dechrau ar ei ddyletswyddau yn y dyfodol agos. Dangosir isod, yn Nhabl 2, sut y defnyddir y grant i gyllido costau'r tîm Prosiect.

Tabl 2:

| | **2008/09 £ miliwn** | **2009/10 £ miliwn** | **2010/11 £ miliwn** | **2011/12 £ miliwn** | **CYFAN SWM: £ miliwn** |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheolwr Prosiect Dros Dro | 0.058 | 0.001 | - | - | 0.059 |
| Costau Recriwtio | 0.021 | - | - | - | 0.021 |
| Cyfarwyddwr Prosiect Dros Dro | - | 0.110 | 0.125 | 0.060 | 0.295 |
| Rheolwr Prosiect | - | 0.042 | 0.057 | 0.036 | 0.135 |
| Cefnogaeth i'r Prosiect. | - | 0.030 | 0.040 | 0.040 | 0.110 |
| Cyfarpar / Cyflenwadau | - | 0.020 | 0.015 | 0.015 | 0.050 |
| Cyfanswm: | 0.079 | 0.203 | 0.237 | 0.151 | 0.670 |

3.06 Mae'r broses Gaffael o benodi ymgynghorwyr annibynnol arbenigol yn symud ymlaen yn dda gyda chontract Ymgynghorwyr Cyfreithiol newydd gael ei rhoi i Pinsent Masons. Disgwylir y bydd y tendrau ar gyfer Ymgynghorwyr Technegol ac Ariannol yn cael eu gwerthuso yn ystod mis Gorffennaf. Pan fydd y broses wedi'i chwblhau byddwn yn gwybod faint fydd costau'r ymgynghorwyr arbenigol a bydd hynny'n gyfran sylweddol o gyfanswm costau'r prosiect.

3.07 Bydd gofyn newid proffiliau cychwynnol cyfanswm y costau i dalu sylw i dynnu elfen gwastraff bwyd o'r prosiect, sefydlu amcangyfrifon wrth iddyn nhw ddod yn gadarnach a thalu sylw i amserlenni gwahanol ar gyfer y prosiect. Cynhelir adolygiad llawn o'r costau a ragwelir pan ddaw'r ymrwymiadau sydd eu hangen ar gyfer penodi pob un o'r ymgynghorwyr proffesiynol yn gliriach. Ar ôl yr adolygiad, efallai y bydd yn rhaid adolygu ymhellach y symiau a ddyrannwyd yn erbyn elfennau unigol cyfanswm cost y prosiect. Adroddir ar ganlyniad yr adolygiad hwn i gyfarfod nesaf Bwrdd y Prosiect.

3.08 Mae gwaith ar y gweill i benderfynu, yn fanwl, sut y bydd costau'r prosiect yn cael eu monitro ac yn cael eu hadrodd i bob cyfarfod o'r Bwrdd. Bydd hyn yn cynnwys:-

- Adroddiad cyllidebol yn dangos: -
    - Y gyllideb
    - Union gostau
    - Ymrwymiadau
- Rhagamcanion bras o lif arian

Bydd y gwaith ail broffilio yn galluogi pob Awdurdod i gael syniad clir o ba bryd y bydd angen rhyddhau adnoddau a'r symiau a fydd eu hangen.

## 4.00 <u>ARGYMHELLION</u>

4.01 Fod Aelodau Bwrdd y Prosiect yn nodi proffiliau diwygiedig costau'r Tîm Prosiect sydd i'w cyllido gan grant Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cynigion ar gyfer adolygu a diweddaru datganiad proffilio ariannol ar gyfer monitro ac adrodd yn y dyfodol.

## 5.00 <u>GOBLYGIADAU ARIANNOL</u>

5.01 Fel y nodir yn yr adroddiad.

## 6.00 <u>EFFAITH GWRTH DLODI</u>

6.01 Dim

## 7.00 <u>EFFAITH AMGYLCHEDDOL</u>

7.01 Dim

**8.00 EFFAITH CYDRADDOLDEBAU**

8.01 Dim

**9.00 GOBLYGIADAU PERSONÉL**

9.01 Dim

**10.00 YMGYNGHORI ANGENRHEIDIOL**

10.01 Dim

**11.00 YMGYNGHORI A WNAED**

11.01 Dim

**12.00 ATODIADAU**

12.01 Dim

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985**
**DOGFENNAU CEFNDIR**

Swyddog Cyswllt: Kerry Feather
Ffôn: (01352) 702200
E-bost: kerry.feather@flintshire.gov.uk

**<u>EITEM AGENDA RHIF: 13</u>**

**BWRDD PROSIECT A'R CYD-BWYLLGOR**

**AMSERLEN Y CYFARFODYDD NESAF**

Cyd-Bwyllgor – 3ydd Gorffennaf am 2 y.h. yn Venue Cymru, Llandudno

Bwrdd Prosiect - 3ydd Medi am 2 y.h. yn Gwynedd (man cyfarfod i'w gadarnhau)

Cyd-Bwyllgor – 17ed Medi am 2 y.h. yn Gwynedd (man cyfarfod i'w gadarnhau)

Bwrdd Prosiect – 27ed Tachwedd am 2 y.h. yn Ystafell Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug

Cyd-Bwyllgor – 9ed Rhagfyr am 2 y.h. yn Ystafell Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug